

ANNALISA SWYN

Harriet Muncaster



Hanner fampir, hanner tylwythen deg, cwbl unigryw!

Wyt ti'n fwy tebyg i fampir neu dylwythen deg?

Beth am roi cynnig ar y cwis i gael yr ateb?

Dewisa'r atebion sy'n dy ddisgrifio di orau, ac yna cyfrif sawl A, B ac C gefaist ti.

1. Mae fy stafell wely i ...

- A. yn ddu, gyda gwely pedwar postyn a phapur wal gyda phatrwm o ystumod arno
- B. yn binc, yn llawn o bethau disglair a blodau – ond mewn gwirionedd byddai'n well gen i gysgu y tu allan o dan y sêr
- C. yn binc a du, gyda chwilt â phatrwm o sêr arno, a ffenest yn y tŵr.

2. Pan dwi'n gwisgo yn y bore, dwi'n ...

- A. treulio oesoedd yn trin fy ngwallt, gan ddefnyddio llwythi o jél a chrib mân i wneud yn siŵr ei fod yn berffaith daclus
- B. chwifio fy hudlath er mwyn cael steil gwallt gwahanol bob dydd, ac ychwanegu tipyn o gliter ato i greu mwy o sbarcl
- C. gadael i 'ngwallt greu ei steil ei hun, gan ei fod e mor wyllt a llawn clymau!



3. Taswn i'n gorfod penderfynu beth i'w gael i ginio, baswn i'n dewis ...

- A. sudd tomato, smŵddi coch a thomatos ... unrhyw beth coch, mewn gwirionedd!
- B. cawl blodau menyn i ddechrau, wedyn crempogau mes a iogwrt neithdar blodau
- C. menyn cnau daear ar dost, a darn mawr o gacen foron yn bwddin!

4. Baswn i'n treulio fy niwrnod perffaith yn ...

- A. aros yn effro drwy'r nos yn syllu ar y sêr – dwi ddim yn hoffi gwneud unrhyw weithgareddau yn ystod y dydd
- B. cerdded drwy'r goedwig, cael tân gwersyll hud a lledrith, a mynd i nofio ... unrhyw beth sy'n ymwneud â natur!
- C. cael partïon llawn hwyl a sbri, gwneud ychydig o hedfan, ac ymarfer dawnsio bale.

5. Fy hoff anifail anwes i fyddai ...

- A. ystum gyda chot sidanaidd a llygaid bach disglair du
- B. unrhyw un o'r anifeiliad dwi'n cwrdd â nhw yn y goedwig neu ar lan nentydd
- C. bwni sy'n giwt ond yn glyfar iawn.

Os atebaist ti A fwyaf:

Rwyt ti'n fampir go iawn! Rwyt ti'n hoffi'r nos, hedfan gyda dy ystum dof a syllu ar y sêr.

Os atebaist ti B fwyaf:

Rwyt ti'n dylwythen deg go iawn! Rwyt ti'n caru natur ac yn treulio amser yn casglu blodau, chwarae mewn nentydd a defnyddio hud a lledrith ar bopeth.

Os atebaist ti C fwyaf:

Fel Annalisa, rwyt ti'n hanner fampir, hanner tylwythen deg – ac yn gwbl unigryw!

